# CYNGOR

**COFNODION Y CYFARFOD AML-LEOLIAD A GYNHALIWYD YN SIAMBR TŶ PENALLTA A THRWY MICROSOFT TEAMS AR DDYDD MERCHER, MAWRTH 15, 2023 AM 5.00PM**

YN BRESENNOL:

Cynghorydd E.M. Aldworth - Maer
Cynghorydd M.A. Adams – Dirprwy Faer

Cynghorwyr:

C. Andrews, A. Angel, C. Bishop, A. Broughton-Pettit, M. Chacon-Dawson, R. Chapman, P. Cook, S. Cook, C. Cuss, N. Dix, G. Ead, C. Elsbury, G. Enright, M. Evans, K. Etheridge, A. Farina-Childs, C. Forehead, E. Forehead, J. E. Fussell, A. Gair, N. George, C. Gordon, D. Harse, T. Heron, A. Hussey, D. Ingram-Jones, M. James, L. Jeremiah, G. Johnston, J. Jones, S. Kent, A. Leonard, P. Leonard, C.P. Mann, A. McConnell, B. Miles, C. Morgan, S. Morgan, B. Owen, T. Parry, L. Phipps, M. Powell, D.W.R. Preece, H. Pritchard, J. Pritchard, J.A. Pritchard, J. Reed, J. Roberts, J. Sadler, R. Saralis, E. Stenner, J. Taylor, C. Thomas, A. Whitcombe, L.G. Whittle, S. Williams, W. Williams, J. Winslade, K. Woodland, C. Wright

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Economi a'r Amgylchedd), S. Harris (Pennaeth Gwasanaethau Ariannol a Swyddog Adran 151), L. Lane (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a Dirprwy Swyddog Monitro), K. Peters (Rheolwr Polisi Corfforaethol), H. Delonnette (Swyddog Polisi), S. Pugh (Pennaeth Cyfathrebu), E. Sullivan (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor), R. Barrett (Cofnodwr)

**CYHOEDDIAD – GOHIRIO EITEM AGENDA RHIF 8**

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor, mewn ymateb i amrywiol gyfathrebiadau a dderbyniwyd, a chyda chytundeb y Maer, bod Eitem Agenda Rhif 8 (Terfyniad Gwirfoddol Arfaethedig o Gontract Menter Cyllid Preifat (PFI) Ysgolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili) wedi'i gohirio er mwyn caniatáu amser i'r Aelodau ystyried yr achos busnes llawn, cyn trafodaeth mewn cyfarfod arbennig o'r Cyngor a gynhelir ar 19 Ebrill 2023.

**TREFNIADAU RECORDIO, FFILMIO A PHLEIDLEISIO**

Atgoffodd y Prif Weithredwr y rhai oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw, ac y byddai recordiad ar gael yn dilyn y cyfarfod ar wefan y Cyngor – Cliciwch yma i'w weld. Dywedodd y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud drwy Microsoft Forms.

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr D.T Davies MBE, J. Simmonds, J. Rao, D. Cushing, D. Price, J. Scriven ac S. Skivens.

## 2. CYHOEDDIADAU'R MAER

Cyfeiriodd y Maer at yr ymrwymiadau a'r digwyddiadau y bu'n bresennol ynddynt ers cyfarfod diwethaf y Cyngor a dywedodd wrth yr Aelodau ei bod wedi cael y pleser yn ddiweddar o fynychu Noson Ymgysylltu â'r Fyddin yn Ysgol Lewis Pengam, a oedd yn noson ddiddorol iawn yn archwilio rhagolygon gyrfa posibl yn y fyddin i bobl ifanc. Mynychodd y Maer a'r Dirprwy Faer Wasanaeth Dinesig Dydd Gŵyl Dewi ynghyd â Maer Cyngor Caerdydd. Roedd y Maer hefyd yn falch iawn o fynychu agoriad siop elusen gyntaf Sight Cymru yn y Coed Duon, sydd wedi bod yn gweithredu ar draws y rhanbarth ers 1865 ac yn darparu gwasanaeth amhrisiadwy i helpu pobl sydd wedi colli eu golwg.

## 3. I DDERBYN DEISEBAU O DAN REOL GWEITHDREFN 28(3)

Cyflwynodd y Cynghorydd Walter Williams ddeiseb ar ran trigolion lleol a Chyngor Cymuned Argoed, a oedd yn gofyn i'r Cyngor ddarparu rhwystr a chroesfan ddiogel i gerddwyr ar gyffordd Abernant Road a Phant y Cefn Road, tynnu'r gylchfan fach, a'i dychwelyd i gyffordd a reolir gan arwydd stop a llinellau gwyn dwbl.

Derbyniodd y Maer y ddeiseb a fyddai'n cael ei gweithredu yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor.

## 4. CYFLWYNO GWOBRAU

### Y Criw Gwastraff

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Wastraff, Hamdden a Mannau Gwyrdd wrth y Cyngor fod tri aelod o'r Tîm Casglu Bwyd a Gwastraff Gwyrdd (Craig Jarvis, Simon Kentfield a David Lemin) yn ymweld ag Eglwys Gymunedol Abertridwr yn rheolaidd am ddiodydd poeth a'u bod wedi dod yn gyfeillgar â'r gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn y ganolfan.

Ar ôl dysgu bod un o'r gwirfoddolwyr yn hoff iawn o chwaraewr Pêl-droed Rhyngwladol Cymru, Gemma Evans, fe gysyllton nhw â hi i ofyn am lun wedi'i lofnodi ar gyfer y gwirfoddolwr. Roedd y criw wrth eu bodd pan anfonodd Gemma Grys Cymru wedi'i arwyddo atynt, a threfnwyd ei fframio. Cyflwynodd Craig, Simon a David y crys wedi'i fframio i'r gwirfoddolwr yn ei chartref ar fore Nadolig. Roedd hyn yn sicr yn enghraifft o staff y Cyngor yn mynd y tu hwnt i'w dyletswyddau ac yn rhywbeth y byddant hwy, a'r gwirfoddolwyr yn y ganolfan, yn ei gofio am byth.

Nodwyd yn anffodus nad oedd Simon Kentfield yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod heno, ond gwahoddwyd Craig Jarvis a David Lemin ymlaen gan y Maer er mwyn i'r Aelodau gydnabod eu hysbryd caredig a meddylgar.

### Malgwyn Davies OBE, Uchel Siryf Gwent

Cyflwynodd y Maer y wobr a oedd yn cydnabod llwyddiannau Mr Malgwyn Davies OBE, Uchel Siryf Gwent, a Phrif Weithredwr cyntaf erioed Cyngor Caerffili yn dilyn ad-drefnu llywodraeth leol yn ôl yn 1996.

Dros y 12 mis diwethaf, mae Mr Davies OBE wedi bod yn cyflawni rôl Uchel Siryf Gwent, sy'n dyddio'n ôl dros fil o flynyddoedd ac sy'n cynnwys ystod o ddyletswyddau megis codi proffil sefydliadau gwirfoddol ac ieuenctid a chefnogi gwasanaethau brys a chymunedol eraill ledled Gwent. Talodd y Maer deyrnged i waith Mr Davies OBE, sydd wedi bod yn hynod

ragweithiol yn y rôl hon ac sydd wedi gweithio'n galed i gefnogi'r gymuned gyfan yn ystod ei benodiad 12 mis, sydd bellach yn dod i ben.

Talodd sawl Aelod deyrnged hefyd i waith Mr Davies OBE a'i ganmol am y modd diwyd a phroffesiynol yr oedd wedi cyflawni ei ddyletswyddau yn ystod ei gyfnod fel Prif Weithredwr.

Gwahoddwyd Mr Davies OBE ymlaen er mwyn i'r Cyngor ddiolch yn ffurfiol iddo am ei ymroddiad i'r rôl a derbyn anrheg fechan ar ran y Cyngor a thrigolion ar draws y fwrdeistref sirol.

Diolchodd Mr Davies OBE i'r Cyngor am y wobr annisgwyl ac am ei anrhydeddu yn y cyfarfod. Mynegodd ei falchder o fod y cyn weithiwr llywodraeth leol cyntaf i ddal swydd Uchel Siryf Gwent ac am allu cynrychioli'r fwrdeistref sirol ar y lefel fawreddog hon, rôl y mae wedi'i mwynhau'n fawr, a diolchodd i Gyngor Caerffili am yr holl gefnogaeth a chymorth a roddwyd iddo yn ystod ei flwyddyn yn y swydd.

## 5. DATGANIADAU O FUDDIANT

Yn ystod y cyfarfod, datganodd y Cynghorydd L. Phipps a J. Winslade fuddiant personol mewn perthynas ag Eitem Agenda rhif 12 – Clwb Rygbi Bedwas yn yr ystyr bod aelodau'r teulu'n chwarae i'r clwb, heb fod yn broffesiynol. Gan mai buddiant personol yn unig oedd hwn nid oedd yn ofynnol iddynt adael y cyfarfod a gallent gymryd rhan lawn yn y ddadl a phleidleisio. Mae manylion hefyd yn cael eu cofnodi gyda'r eitem berthnasol.

## 6. Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR 17EG IONAWR 2023

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2023 (cofnod rhif 1-13) fel cofnod cywir.

## 7. I DDERBYN AC ATEB CWESTIYNAU A DDERBYNIWYD O DAN REOL trefn 10(4)

Cwestiwn gan y Cynghorydd A. Hussey i'r Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau, Cynghorydd C. Andrews

A wnaiff yr Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith tîm Gofalu am Gaerffili?

Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau i'r Cynghorydd A. Hussey

Mae Gofalu am Gaerffili wedi dosbarthu dros 450 o Becynnau Cynnes i breswylwyr ac wedi derbyn dros 5000 o alwadau a 2000 o e-byst gan breswylwyr yn gofyn am help. Bellach mae dros 53 o Fannau Croesawu yn cael eu darparu gan 39 o sefydliadau ar draws y fwrdeistref sirol, ac yn dilyn gwerthusiad, bydd cyfle i'r mannau hyn barhau i'r gwanwyn, gyda llai o bwyslais ar ddarparu cynhesrwydd a mwy ar leihau arwahanrwydd cymdeithasol ac unigrwydd. Rydym hefyd wedi cynorthwyo i ddarparu cyllid gwerth dros £250,000 i 46 o sefydliadau a grwpiau cymunedol. Mae dros 300 o unigolion wedi cael cymorth un-i-un a 78 wedi cael cymorth i gael mynediad at ddarpariaeth gymunedol leol, ac mae dau dderbynnydd cyntaf y Gronfa Galedi ar fin cael taliadau. Mae'r Gronfa Galedi ar gyfer y trigolion hynny nad ydynt yn gallu derbyn cymorth ariannol gan unrhyw sefydliadau eraill. Mae dros 1000 o drigolion wedi cael cymorth i wneud cais am daliad tanwydd gaeaf Llywodraeth Cymru a hefyd mae dros 800 o barseli bwyd wedi'u trefnu, 800 o geisiadau llwyddiannus am daliadau tai dewisol, cyngor ynni wedi'i roi i dros 250 o denantiaid ac rydym wedi darparu 350 o atgyfeiriadau i'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth am gyngor ar arian a dyledion. Mae ail gylchlythyr Costau Byw wedi'i argraffu ac yn y broses o gael ei ddosbarthu i gartrefi ledled y

fwrdeistref sirol. Bydd hefyd ar gael mewn llyfrgelloedd a chanolfannau gwaith a bydd gan Gofalu am Gaerffili gyflenwad pan fyddant yn mynychu'r digwyddiadau a drefnwyd trwy gydol misoedd y gwanwyn a'r haf.

Cynhyrchwyd £3.2m o incwm ychwanegol i drigolion yn ystod blwyddyn ariannol 21/22 a chyflwynwyd cymorth i helpu'r Timau Arlwyo, Addysg, Treth y Cyngor a Budd-daliadau i dderbyn galwadau ac atgyfeiriadau. Mae'r Cysylltwyr Cymunedol wedi bod yn llunio astudiaethau achos, ac mae rhai o'r rhai i'w nodi yn cynnwys preswylydd a gafodd ôl-daliad Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) o £10,000 ac a gafodd incwm uwch o £225 yr wythnos. Cynyddodd incwm wythnosol preswylydd arall £159 a chanfod hefyd fod ganddynt hawl i ofal deintyddol a llygaid am ddim a thrwydded deledu am ddim. Cynorthwywyd trydydd preswylydd gyda gwiriad budd-daliadau a chynyddodd ei incwm dros £700 y mis. Dyma rai yn unig o'r ffyrdd y mae'r tîm yn gweithio i gynorthwyo ein trigolion ar draws holl adrannau'r Cyngor a chyda sefydliadau eraill, a hoffwn ddiolch i'n holl weithwyr a gwirfoddolwyr am eu hymdrechion i helpu gyda hyn.

**ADRODDIADAU SWYDDOGION**

Ystyriwyd yr adroddiadau canlynol.

**8. CYNNIG I DERFYNU CONTRACT PFI YSGOLION CBS CAERFFILI YN WIRFODDOL**

Fel y nodwyd ar ddechrau'r cyfarfod, gohiriwyd yr eitem hon tan gyfarfod arbennig o'r Cyngor i'w gynnal ar 19 Ebrill 2023.

**9. CYHOEDDI'R DATGANIAD POLISI TÂL**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor i gyhoeddi Datganiad Polisi Tâl 2023/24 yr Awdurdod. Nododd y Cyngor fod y Datganiad Polisi Tâl sydd ynghlwm yn Atodiad 1 yn ddatganiad o ffaith ac yn cynnwys manylion llawn sefyllfa tâl y Cyngor ar gyfer 2023/24. Mae'n ofyniad deddfwriaethol bod y wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi'n flynyddol erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn. Bydd y Datganiad Polisi Tâl yn cael ei gyhoeddi ar Wefan y Cyngor a bydd ar gael i'r cyhoedd ei weld.

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau am gynnwys yr adroddiad a chynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn adroddiad y Swyddog yn cael eu cymeradwyo. Trwy Microsoft Forms a chadarnhad llafar (a chan nodi bod 52 o blaid, 0 yn erbyn a 7 yn ymatal), cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol

PENDERFYNWYD:-

(i) cytuno ar y Datganiad Polisi Tâl 2023/24 (Fersiwn 12) amgaeedig i'w gyhoeddi ar wefan y Cyngor;

(ii) cytuno ar y diwygiadau i Raddau 1-3 ar Strwythur Tâl y Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol yn Atodiad A Polisi Tâl 2023/24.

**10. BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWENT – CYNLLUN LLESIANT 2023-2028**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad, a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor i Gynllun Llesiant drafft Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent (BGC) 2023 - 2028 er mwyn symud ymlaen i'w gyhoeddi'n derfynol cyn 5 Mai 2023.

Dywedwyd wrth yr aelodau mai dyma'r Cynllun Llesiant Gwent cyntaf i'w gymeradwyo fel aelod statudol o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent. Mae gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ddyletswydd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i gynhyrchu Cynllun Llesiant sy'n anelu at wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol eu hardal, cyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol, a defnyddio'r pum ffordd o weithio fel fframwaith. Ym mis Medi 2021, unodd y pum Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus presennol yn rhanbarth Gwent i ffurfio BGC Gwent.

Gan adeiladu ar y trefniadau partneriaeth cryf a oedd yn bodoli eisoes, cyhoeddwyd yr Asesiad Llesiant Gwent cyntaf gydag asesiadau ardaloedd cymunedol lleol ategol yn nodi'r materion allweddol sy'n effeithio ar gymunedau lleol. Gan ddefnyddio'r themâu allweddol hyn, datblygwyd Cynllun Llesiant drafft ac ymgynghorwyd yn eang arno â chymunedau lleol, rhanddeiliaid a rheoleiddwyr, a defnyddiwyd y wybodaeth a gasglwyd yn ystod yr ymgynghoriad i fireinio Cynllun Llesiant Gwent ymhellach. Mae'r Cynllun hwn yn gosod y cyfeiriad rhanbarthol ar gyfer cydweithio, yn nodi lle gall y BGC ychwanegu'r gwerth mwyaf ac yn darparu dull cyffredin ar draws y rhanbarth i sicrhau bod yr holl drigolion yn elwa. Mae Grŵp Cyflenwi Lleol wedi'i sefydlu ym mhob ardal leol i ganolbwyntio ar y materion lleol a sut i fynd i'r afael â'r rhain, gan alluogi canolbwyntio gwaith ac ymdrech lle byddant yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf. Bydd gwaith yn parhau dros yr ychydig fisoedd nesaf i ddatblygu cynlluniau cyflenwi manwl ar lefel leol a rhanbarthol, gan gynnwys camau gweithredu ar gyfer y tymor byr, canolig a hir, ynghyd â mesurau perfformiad i asesu'r gwahaniaeth a wneir.

Rhoddwyd sicrwydd y bydd Cyngor Caerffili yn parhau i gael ymateb lleol i gynllun Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent drwy Grŵp Cyflenwi Lleol Caerffili, gan sicrhau bod asiantaethau'r sector cyhoeddus yn cael eu cynrychioli, ynghyd â'r sector gwirfoddol a chynghorau tref a chymuned. Bydd y Cynllun Cyflenwi Lleol yn cyfrannu at y blaenoriaethau rhanbarthol ac yn nodi'r hyn y bydd Caerffili yn ei wneud mewn cydweithrediad â'r Grwpiau Cyflenwi Lleol eraill ledled Gwent i wneud pethau'n well i gymunedau lleol.

Trafododd y Cyngor yr adroddiad, ac mewn ymateb i ymholiad ar gynrychiolaeth trigolion lleol o fewn y Grŵp Cyflenwi Lleol, eglurodd Swyddogion y cydnabuwyd bod angen i'r grŵp ehangu ei gynrychiolaeth i sicrhau eu bod yn nodi'r materion lleol fel rhan o'r Cynllun Llesiant newydd. Nodwyd bod y Grŵp ar hyn o bryd yn cynnwys cynrychiolydd o'r sector Cynghorau Tref a Chymuned, ac mae'r Grŵp hefyd eisiau cynnwys cynrychiolydd darparwr tai, gan fod tai wedi'u nodi fel blaenoriaeth yn y Cynllun Cyflenwi Lleol.

Gofynnwyd am eglurhad ynghylch cynnydd y rhaglen cyllidebu cyfranogol ar draws Bwrdeistref Sirol Caerffili, ac eglurwyd mai arian yw hwn sydd wedi'i ddyrannu i'r gymuned drwy drefniadau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol drwy'r Grŵp Cyflenwi Lleol. Mae'r Cyngor ar fin gwneud trefniant gyda Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO) i gyflwyno'r rhaglen ar eu rhan, a thros y misoedd nesaf, bydd gwaith ar y rhaglen hon yn dechrau gyda chymunedau lleol.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn adroddiad y Swyddog yn cael eu cymeradwyo. Trwy Microsoft Forms a chadarnhad llafar (a chan nodi bod 59 o blaid, 0 yn erbyn ac 1 yn ymatal), cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

> PENDERFYNWYD nodi bod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent wedi cynhyrchu ei Gynllun Llesiant drafft terfynol a bod y Cynllun yn cael ei gymeradwyo fel y gall symud ymlaen i'w gyhoeddi'n derfynol cyn 5 Mai 2023.

**11. PRAWF LLES Y CYHOEDD**

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i Brawf Budd y Cyhoedd a daethant i'r casgliad, ar ôl pwyso a mesur, bod budd y cyhoedd o gadw'r eithriad yn gorbwyso budd y cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth. Trwy Microsoft Forms a chadarnhad llafar ac wrth nodi bod 52 o blaid, 2 yn erbyn a 4 yn ymatal, cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

> PENDERFYNWYD bod y cyhoedd, yn unol ag Adran 100(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn cael eu gwahardd o weddill y cyfarfod oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu iddynt fel y'i diffinnir ym mharagraff 14 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Ar ôl derbyn Prawf Budd y Cyhoedd, terfynwyd y llif byw a recordio'r cyfarfod, a symudodd y Cyngor i sesiwn eithriedig.

## 12. CLWB RYGBI BEDWAS

Yn ystod y drafodaeth, datganodd y Cynghorwyr L. Phipps a J. Winslade fuddiant personol mewn perthynas â'r eitem hon, sef bod aelodau'r teulu'n chwarae i'r clwb, mewn rôl nad yw'n broffesiynol. Gan mai buddiant personol yn unig oedd hwn, nid oedd yn ofynnol iddynt adael y cyfarfod a gallent gymryd rhan lawn yn y ddadl a'r pleidleisio.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant a thrwy Microsoft Forms a chadarnhad llafar (a chan nodi bod 17 o blaid, 36 yn erbyn a 4 yn ymatal) datganwyd bod y gwelliant wedi ei golli.

Ar ôl ystyried adroddiad y Swyddog yn llawn, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion ynddo ynghyd ag argymhelliad ychwanegol (3.1.4) yn cael eu cymeradwyo. Trwy Microsoft Forms (a chan nodi bod 43 o blaid, 2 yn erbyn ac 11 yn ymatal), cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

> PENDERFYNWYD cymeradwyo Argymhellion 3.1, 3.1.1, 3.1.2, 3.1.3 fel y'u nodwyd yn yr adroddiad ac Argymhelliad 3.1.4 ychwanegol.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.28 p.m.

Cymeradwywyd fel cofnod cywir ac yn amodol ar unrhyw newidiadau neu gywiriadau a gytunwyd ac a gofnodwyd yng nghofnodion y cyfarfod a gynhelir ar 23 Mai 2023, fe'u llofnodwyd gan y Maer.

________________________

MAER